# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Mawrth 2020

Amser: 13.03 - 15.38

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5887

# Cyfarfod preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Stephen Lisle<br>Matthew Mortlock<br>Mike Usher<br>Nick Selwyn |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Delyth Jewell AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.
2.2 Cytunodd yr Aelodau y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn gofyn i'r Pwyllgor hwnnw fonitro penderfyniadau polisi yn y dyfodol ynghylch Stiwdios Pinewood yng Nghaerdydd a diwydiannau creadigol yng Nghymru.

### 2.1 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (28 Chwefror 2020)

### 2.2 Caffael Cyhoeddus: Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (28 Chwefror 2020)

### 2.3 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (4 Mawrth)

### 2.4 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (5 Mawrth 2020)

## 3 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law ar 9 Mawrth 2020.

## 4 Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law a'r prif faterion

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law ar 9 Mawrth 2020 ac ystyriodd y papur ar y materion allweddol.

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Trafod yr adroddiad drafft

5.1 Trafododd y Pwyllgor y ail ddrafft o'r adroddiad.

5.2 Cytunwyd y dylid mynd â drafft pellach i'r Pwyllgor ar 23 Mawrth, yn dilyn y gwelliannau a awgrymwyd heddiw.

## 6 Blaenraglen waith: Haf 2020

6.1 Trafododd yr Aelodau y blaenraglen waith ar gyfer tymor haf 2020 a nododd y gallai newid yn dibynnu ar y sefyllfa o ran Coronafeirws.

## 7 Gwella Ffordd A465 Adran 2: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

7.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru cyn y sesiwn dystiolaeth sydd ar ddod gyda Llywodraeth Cymru.

## 8 Rheoli Gwastraff: Trafod y llythyr drafft

8.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft a chytunodd arno.